

LLYNNOEDD HENDRE CAERDYDD
CARDIFF HENDRE LAKES

Gwasanaethir gan **Parcfordd Caerdydd**
Served by **Cardiff Parkway**

Lleisio eich barn

Ymgynghoriad statudol cyn-ymgeisio Llynnoedd Hendre Caerdydd a
Pharcfordd Caerdydd

05 Awst – 09 Medi 2020

Cerrig milltir y prosiect

2016

Prosiect wedi'i neilltuo fel safle cyflogaeth strategol yng Nghynllun Datblygu Lleol Cyngor Caerdydd

Tachwedd 2019

Gwaith cychwynnol i ddatblygu'r cynigion, gan gynnwys gwaith arolygu ac ymgysylltu ag ymgynghoreion statudol allweddol

Ionawr 2019

Cyhoeddi bod Llywodraeth Cymru yn gyfranddaliwr ac yn fuddsoddwr yn y prosiect

Tachwedd - Rhagfyr 2019

Ymgysylltu â'r cyhoedd

Rhagfyr - Gorffennaf 2019-2020

Adolygu'r adborth a gafwyd o'r gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd a datblygu'r cynigion ymhellach

05 Awst – 09 Medi 2020

Ymgynghoriad statudol

Diwedd yr haf 2020

Cyflwyno cais cynllunio

2021

Dechrau adeiladu

2024

Gorsaf ar agor i deithwyr



Argraff arlunydd o du allan yr orsaf

Llynnoedd Hendre Caerdydd gwasanaethir gan orsaf drenau Parcffordd Caerdydd

Diolch am eich diddordeb yn Llynnoedd Hendre Caerdydd a'n hymgyngoriad cyn-ymgeisio statudol.

Rydym yn datblygu cynlluniau ar gyfer Llynnoedd Hendre Caerdydd - ardal fusnes newydd arfaethedig i'r de o Barc Busnes Llaneirwg a gaiff ei gwasanaethu gan orsaf drenau Parcffordd Caerdydd. Mae'r safle wedi'i neilltuo at ddefnydd cyflogaeth yng Nghynllun Datblygu Lleol Cyngor Caerdydd. Bydd Llynnoedd Hendre yn hwb cyflogaeth mawr newydd i'r brifddinas a'r rhanbarth ehangach.

Mae datblygiad Llynnoedd Hendre, a gefnogir gan orsaf drenau Parcffordd Caerdydd, o arwyddocâd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'n addo cysylltu pobl a busnesau ledled De Cymru, gan gynnig swyddi, ysgogi buddsoddiad, a chreu profiadau newydd mewn tirwedd unigryw.

Gwnaethom gynnal ymgysylltu cychwynnol â'r cyhoedd ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2019 ac rydym nawr yn cynnal ein hymgyngoriad statudol sy'n rhoi cyfle i chi rannu eich safbwyntiau eto, cyn i ni gyflwyno ceisiadau cynllunio amlinellol.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth i'ch helpu i roi adborth. I rannu eich safbwyntiau, cwblhewch ffurflen adborth ar-lein neu ei hanfon i FREEPOST HENDRE LAKES erbyn dydd 05 Awst – 09 Medi.



Ein gweledigaeth

Newid sylweddol mewn cysylltedd

Mae teithio cynaliadwy yn greiddiol i ddatblygiad Llynnoedd Hendre, gyda mynediad hawdd at wasanaethau trenau a bysiau yn ogystal â llwybrau cerdded a beicio. Bydd gorsaf newydd Parcffordd Caerdydd yn sicrhau bod busnesau newydd a'r gymuned leol o fewn pellter cerdded i wasanaethau sy'n cyrraedd Caerdydd Canolog a Chasnewydd, yn ogystal â gwasanaethau trenau prif linell i ddinasoedd mawr megis Bryste, Manceinion a Llundain. Dim ond saith munud o daith fydd hi i orsafoedd Caerdydd Canolog a Chasnewydd.

Lle i ffynnu

Bydd y rhwydwaith hanesyddol o ffosydd sy'n llifo drwy'r ardal yn ganolog i Llynnoedd Hendre Caerdydd. Caiff rhan sylweddol o'r datblygiad ei neilltuo ar gyfer mannau gwyrdd, a fydd yn dangos nodweddion naturiol pwysig y safle, fel y prif ffosydd, a gaiff eu cadw a'u hymgorffori yn y cynigion mewn ffordd sensitif. Bydd yr ardaloedd agored yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb a chaiff ardal i fywyd gwyllt a chynefinoedd ei hymgorffori yn ein dyluniadau.

Bydd caffis, bwytaï a chyfleusterau eraill ar gael i bobl sy'n defnyddio'r orsaf, sy'n gweithio yn Llynnoedd Hendre Caerdydd neu'r parciau busnes cyfagos presennol, ac i'r gymuned leol.


Hwb ar gyfer swyddi a sgiliau

Bydd Llynnoedd Hendre yn gartref i'r genhedlaeth nesaf o fusnesau, a bydd yn arwain at dwf ac yn cyfrannu at adfywio Dwyrain Caerdydd a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd hefyd. Gall y datblygiad gefnogi hyd at 6,000 o swyddi mewn amrywiaeth o ddiwydiannau. Bydd y datblygiad hefyd yn cefnogi Cynllun Economaidd a Thwf Prifddinas-Ranbarth Caerdydd drwy ddarparu cartref newydd i fusnesau yn y diwydiannau creadigol, technoleg ariannol, peirianeg trafnidiaeth, lled-ddargludyddion cyfansawdd a gwyddor bywyd.

Bydd strydoedd, parciau, ardaloedd cyhoeddus ac adeiladau o ansawdd uchel yn creu ardal atyniadol i bobl dreulio amser ynddi, i ffwrdd o'u desgiau, i deithwyr sy'n defnyddio'r orsaf drenau yn ogystal ag ardal i'r gymuned leol ei mwynhau.

Ystyriaethau ynghylch datblygiad Llynnoedd Hendre

Ers ein gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd ar ddiwedd 2019, rydym wedi bod yn gweithio i ddatblygu ein cynigion er mwyn creu ddatblygiad enghreifftiol. Rydym wedi ystyried yr hyn y gwnaethoch ei ddweud wrthym am ein cynigion cychwynnol, yn ogystal â nodweddion allweddol y safle. Rydym wedi edrych hefyd ar ddatblygiadau eraill lle mae teithio, mannau cyhoeddus ac amgylcheddau ffisegol o ansawdd uchel yn ganolog i'w dyluniad.



Yr hyn y gwnaethoch ei ddweud wrthym

Yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2019, gwnaethom gynnal ymarfer ymgysylltu cychwynnol â'r cyhoedd i'n galluogi i ddeall sut roeddech am gael budd o'r datblygiad fel y gallem ystyried hyn wrth i ni ddatblygu ein cynigion. Dyma'r hyn y gwnaethoch ei ddweud wrthym:

Cyfnewidfa drafnidiaeth gysylltiedig

Roedd cryn dipyn o gefnogaeth i ddatblygu cyfnewidfa drafnidiaeth newydd a gorsaf Parcffordd Caerdydd, ac roeddech yn cydnabod y byddai'r datblygiad arfaethedig yn creu cysylltiadau trafnidiaeth gwell â Chaerdydd, Casnewydd a thu hwnt. Roeddech hefyd yn cefnogi'r ffaith bod y datblygiad yn annog dulliau teithio llesol drwy gyfrwng cyfleusterau beicio a cherdded newydd.

Roeddech yn poeni am effaith bosibl cynnydd mewn traffig ar hyd Cypress Drive a chylchfan yr A48 a thrwy'r ardaloedd preswyl cyfagos. Roedd pryderon y byddai defnyddwyr yr orsaf yn parcio yn y strydoedd preswyl cyfagos, yn hytrach na lleoedd parcio dynodedig yr orsaf.

Lliniaru tagfeydd traffig

Datblygiad cynaliadwy

Roeddech yn cefnogi'r ffaith bod y datblygiad yn ceisio bod mor gynaliadwy â phosibl, a gwnaethoch ofyn am ffynonellau ynni gwyrdd, cyfleusterau gwefru cerbydau trydan ac ardaloedd i blannu rhywogaethau brodorol. Roeddech yn poeni y gallai'r datblygiad gael effaith ar fywyd gwylt â llifogydd lleol, ansawdd aer a swn.

Roeddech yn cefnogi potensial y datblygiad i greu swyddi a chynnig mynediad gwell i gyfleoedd am swyddi. Roedd rhywfaint o gefnogaeth hefyd i gael mannau penodol ar gyfer busnesau newydd a'r cyfle i'r datblygiad arfaethedig gysylltu ag ysgolion a cholegau cyfagos.

Cyfleoedd am swyddi

Lle diogel ac atyniadol

Rydych am i'r datblygiad fod yn ddiogel ac yn atyniadol, gyda llwybrau sydd wedi'u goleuo'n dda, tiroedd cyhoeddus diddorol, lle gellir gosod gosodiadau celf, ardaloedd meddwlgarwch a mesurau gweithredol i atal sbwriel, graffiti a fandaliaeth arall. Roeddech hefyd o'r farn bod y datblygiad yn gatalydd i wella cyfleusterau a mynediad i Barc Llyn Hendre.



Uwchgynllun Llynnoedd Hendre

Gan ddefnyddio'r casgliadau o gam dylunio'r datblygiad a'r adborth o'r sesiynau ymgysylltu cynnar, rydym wedi datblygu ein huwchgynllun ar gyfer Llynnoedd Hendre.

Y prif nodweddion yw:


- 1 Cadw'r prif rwydwaith ffosydd: Ffos Faendre, Ffos Tŷ Ffynnon a Ffos Green Lane gyda chlustogfeydd sylweddol i ddiogelu fflora a ffawna
- 2 Creu 'Prif Barc' - man cyhoeddus newydd, hygyrch i gysylltu St Mellons a y datblygiad newydd
- 3 Creu prif bwynt mynediad i gerbydau o'r ffordd ddeuol ar Cypress Drive yn uniongyrchol i'r orsaf, gan gadw'r prif lif traffig i ffwrdd oddi wrth breswylwyr cyfagos a chalon y datblygiad
- 4 Cysylltiadau newydd i alluogi cerddwyr a beicwyr o gymunedau cyfagos i gyrraedd a gadael y datblygiad a'r orsaf
- 5 'Coridor bywyd gwyllt' gwyrdd a bysedd gwyrdd yn rhedeg drwy'r safle i greu 'grid gwyrdd' integredig o fewn y datblygiad, gan gysylltu cynefinoedd allweddol, rheoli dwr a diffinio strydoedd ac ardaloedd cyhoeddus newydd
- 6 Cyfnewidfa drafnidiaeth wrth ymyl gorsaf Parcffordd Caerdydd, gyda chyfleusterau i wasanaethau bws lleol alw yn yr orsaf, safle taccis, lleoedd parcio beiciau, maes parcio â lleoedd i ddeiliaid bathodynau glas, mannau gwefru cerbydau trydan a chyfleuster casglu/gollwng dynodedig
- 7 Tir cyhoeddus atyniadol, gan gynnwys Sgwâr yr Orsaf a meingefn sy'n rhedeg drwy'r datblygiad lle gall pobl gwrdd, cymdeithasu a chwarae

Tair ardal ddatblygu benodol:

- 8 Parth yr orsaf gyda dwysedd uwch o adeiladau hyd at 15 llawr o uchder er mwyn creu awyrgylch bywiog o amgylch yr orsaf
- 9 Parseli gogleddol yn agosach i'r datblygiad presennol gyda dwysedd is o adeiladau hyd at chwe llawr o uchder
- 10 Ardal ganolog rhwng ardal gyda dwysedd canolig ac adeiladau o uchder canolig
- 11 Ardal bioamrywiaeth wedi'i gwella i'r de o'r rheilffordd gyda chynefinoedd cyfoethog eu rhywogaethau a rhydwaiith ffosydd gwell ar gyfer bywyd gwyllt er mwyn lliniaru unrhyw aflonyddwch a achosir gan y datblygiad



Argraff arlunydd o du mewn yr orsaf



Cynllun darluniadol y gyfnewidfa arfaethedig

Parcffordd Caerdydd

Mae Gorsaf Parcffordd Caerdydd, y disgwylir iddi agor yn 2024¹, wrth wraidd datblygiad Llynnoedd Hendre. Bydd gorsaf Parcffordd Caerdydd, a leolir ar y brif linell bresennol, yn darparu gwasanaethau i orsafoedd Caerdydd Canolog, Casnewydd, Bryste, Llundain a Manceinion. Dyluniwyd adeilad yr orsaf newydd a'r sgwâr cyhoeddus sydd o'i amgylch i ddwyn ynghyd drafnidiaeth gynaliadwy, amwynderau lleol, a busnesau newydd mewn lleoliad wedi'i dirlunio y gall pawb ei fwynhau.

Bydd yr orsaf, sydd ond saith munud i ffwrdd ar y trê'n o orsafoedd Caerdydd Canolog a Chasnewydd, yn croesawu mwy nag 800,000 o deithwyr y flwyddyn. Bydd wyth siwrnai yr awr yn teithio i'r dwyrain a'r gorllewin, i Gasnewydd a Chaerdydd, gan gynnwys gwasanaethau i Lundain ac oddi yno.

Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Network Rail, Trafnidiaeth Cymru, Heddlu De Cymru, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a grwpiau anabledd, er mwyn sicrhau bod yr orsaf wedi'i dylunio mewn ffordd sy'n golygu ei bod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb. Bydd yr orsaf newydd yn agor allan i ardal gyhoeddus o ansawdd uchel, wedi'i hamgylchynu gan adeiladau newydd a gwaith tirlunio o ansawdd uchel, a fydd yn creu argraff gadarnhaol ar deithwyr sy'n cyrraedd. Bydd yr orsaf a'r ardal o'i hamgylch yn cynnwys llwybrau atyniadol a diogel sydd wedi'u goleuo'n briodol.

¹Yn amodol ar ganiatâd cynllunio ac amserlenni adeiladu

Bydd Sgwâr yr Orsaf yn ffurfio porth i'r datblygiad, gydag ardal gyhoeddus atyniadol i groesawu pobl a'u hannog i grwydro'r ardal, neu eistedd yn ôl a mwynhau'r lleoliad.

Bydd y gyfnewidfa drafnidiaeth arfaethedig yn golygu y bydd trenau, tacsis, bysiau a manau parcio beiciau oll yn hygyrch. Bydd man casglu a gollwng wedi'i leoli 50 - 100 metr o'r orsaf hefyd a bydd gan yr orsaf faes parcio dynodedig ar gyfer hyd at 600 o gerbydau, y gellir ei ehangu os bydd angen. Bydd deg y cant o'r lleoedd parcio gyfleusterau gwefru trydan, a bydd modd gosod cyfleusterau o'r fath ym mhob lle parcio.

Bydd seilwaith a chyfleusterau beicio ar gael, gan gynnwys 100 o leoedd parcio beiciau diogel yn yr orsaf a bydd mwy o leoedd parcio beiciau o amgylch y datblygiad. Bydd cyfleoedd i ddarparu cyfleusterau llogi beiciau, fel y gall pobl sy'n cyrraedd ar y trê'n eu defnyddio i fynd o amgylch y safle. Bydd lleoedd parcio ceir sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a lleoedd parcio ar gyfer beiciau addasol ar gael mewn manau cyfleus yn y datblygiad.

Mae'r tîm dylunio yn gweithio gydag awdurdodau trafndiaeth i ystyried arwyddion digidol, fel gwybodaeth fyw am amseroedd cyrraedd/gadael bysiau a threnau mewn manau priodol yn y gyfnewidfa a'r cyfleuster parcio a theithio.

Bydd y brif ffordd fynediad a'r orsaf yn rhan o'r cam adeiladu cychwynnol, yn ogystal â'r gyfnewidfa drafnidiaeth a chyfleusterau parcio'r orsaf.



Ymgyngoriad statudol cyn-ymgeisio Llynnoedd Hendre Caerdydd a Pharcffordd Caerdydd

Argraff arlunydd yn edrych i'r gogledd ar hyd Ffos Faendre sy'n dangos coridorau bywyd gwyllt gydag adeiladau yn y cefndir er mwyn creu amgylchedd agored a llwybrau cerdded a beicio i gymunedau lleol a gweithwyr

Datblygiad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: yr amgylchedd a thirwedd

Gwnaethoch ddweud wrthym eich bod yn poeni y gallai'r datblygiad gael effaith ar fywyd gwyllt a llifogydd



Bydd Llynnoedd Hendre Caerdydd yn ddatblygiad hynod gynaliadwy ac yn cysylltu cymunedau presennol â'r orsaf gan greu ymdeimlad o berthyn i ardal. Byddwn yn creu amgylchedd atyniadol sydd wedi'i ddylunio'n dda i bobl weithio a chymdeithasu ynddo yn ogystal ag ymweld ag ef. Byddwn yn creu amwynder gwyrdd hygrych, gwerthfawr i'r gymuned leol, ymwelwyr, gweithwyr o ddydd i ddydd, yr hen a'r ifanc.

Ein strategaeth ar gyfer yr amgylchedd a'r dirwedd yw sicrhau bod y datblygiad yn ymateb i gyd-destun presennol y safle. Rydym wedi treulio llawer o amser yn cynnal arolygon ecolegol ac yn ymchwilio i rywogaethau a chynefinoedd er mwyn llywio ein strategaethau arfaethedig ar gyfer y dirwedd a bioamrywiaeth.


Dengys ein harolygon fod y prif feysydd o ddiddordeb ecolegol yn ymwneud â rhywogaethau a warchodir, gwrychoedd a'r prif rwydwaith ffosydd (gan gynnwys y dwr a'r glannau). Nodwyd hefyd fod y safle a'r cynefinoedd cyfagos yn cynnal bywyd gwyllt a warchodir, gan gynnwys pathewod, dyfrgwn, ystlumod, llygod y dwr a thylluanod gwynion.

Yn gynnar yn y datblygiad, byddwn yn cyflwyno ffosydd newydd i'r de o'r rheilffordd a chynefinoedd cyfoethog eu rhywogaethau, gan gynnwys coetir a glaswelltir sych a gwlyb, er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i fywyd gwyllt aeddfedu. Gwnawn hyn er mwyn lliniaru unrhyw effaith y gallai gwaith adeiladu ei chael dros dro ar rywogaethau. Byddwn yn plannu sawl cilomedr o wrychoedd newydd cyfoethog eu rhywogaethau er mwyn atgyfnerthu cysylltiadau ar gyfer bywyd gwyllt.

Ein nod yn y pen draw yw gwella'r amgylchedd gan helpu natur i ffynnu a galluogi pobl i fwynhau treftadaeth a harddwch y dirwedd, lle bo hynny'n bosibl.

Mae'r cynllun yn dangos yr ardaloedd a gaiff eu neilltuo er mwyn creu a gwella cynefinoedd i fywyd gwyllt ar y safle.

Cynllun dangosol yn dangos nodweddion amgylcheddol allweddol



Allwedd ar gyfer y map:

- A. Coridor bywyd gwyllt** – coridor cyfoethog yn ecolegol sy'n llawn cynefinoedd brodorol
- B. Prif Barc** – ardal werdd yng nghanol y datblygiad, sy'n darparu lle cymunedol, cynefinoedd i fywyd gwyllt, systemau draenio a mesurau rheoli llifogydd
- C. Ardal lliniaru ddeheuol** – ardal wedi'i gwella i'r de o'r rheilffordd gyda chymysgedd o gynefinoedd, gan gynnwys ffosydd a gwrychoedd i fywyd gwyllt, er mwyn lliniaru unrhyw aflonyddwch a achosir gan y datblygiad
- D. Ardaloedd ffosydd** – caiff y prif ffosydd a'r cynefinoedd ar y glannau eu cadw gyda chlustogfeydd a phlanhigion ychwanegol wedi'u plannu



Roeddech yn poeni y gallai fod mwy o lygredd, gan gynnwys swm ac ansawdd aer



Nod Llynnoedd Hendre Caerdydd yw rhoi blaenoriaeth i ffyrdd cynaliadwy o deithio a'i gwneud hi'n haws ac yn fwy cyfleus i bobl adael eu ceir gartref a defnyddio'r trênn, y bws neu feic. Drwy ddarparu cysylltiadau teithio llesol, trafndiaeth gyhoeddus well a gorsaf newydd gyda chyfleusterau parcio, ein nod yw sicrhau ei bod mor gyfleus â phosibl i bobl barcio eu ceir a chyrraedd y trênn.

Rydym wedi nodi y bydd angen gwaith priffyrdd, yn enwedig ar gylchfan yr A48/Cypress Drive, bydd angen gwella capasiti a lleihau ciwio a swm traffig cysylltiedig. Bydd hefyd yn lleihau allyriadau o'i gymharu â'r gylchfan dagfeydd bresennol.

Unwaith y bydd y datblygiad yn weithredol, dengys ein hasesiadau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol o ran swm nac ansawdd aer i gymunedau cyfagos.

Caiff gweithgareddau adeiladu eu cyflawni yn unol â Chynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu a fydd yn rheoli amseriad y gwaith, llwybrau'r cerbydau adeiladu a gweithgareddau i leihau llygredd, fel golchi olwynion a diogelu llwythi. Yn ystod y gwaith adeiladu, byddwn yn darparu gwybodaeth er mwyn hysbysu cymunedau lleol pa waith sy'n digwydd a phryd.

Yn ogystal ag annog pobl i gerdded neu feicio i'r gwaith yn yr ardal fusnes, rydym yn ceisio sicrhau ei bod mor gyfleus â phosibl i bobl leol deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i Gaerdydd, Casnewydd a thu hwnt. Bydd hyn yn arwain at lai o deithiau car yn yr ardal leol.

Roeddech yn poeni am effaith cynnydd mewn traffig ar hyd Cypress Drive a chylchfan yr A48 a thrwy ardaloedd preswyl cyfagos



Er ein bod yn annog dulliau teithio cynaliadwy, rydym yn cydnabod y bydd rhai pobl yn teithio mewn car er mwyn parcio ac wedyn defnyddio'r trênn neu er mwyn ymweld â'r safle ei hun. Rydym wedi ymgysylltu â Chyngor Caerdydd ac, o ganlyniad, rydym wedi cynnal asesiad manwl o symudiadau cerbydau ffyrdd. Yn sgil hyn, rydym wedi nodi gwaith priffyrdd i'w gyflawni, er enghraifft, ar gylchfan yr A48/Cypress Drive, a fydd yn gwella capasiti ac yn lleihau ciwiau ac oedi.

Wrth ddatblygu'r uwchgynllun, rydym wedi datblygu prif ffordd fynediad sy'n tywys traffig i ffwrdd oddi wrth eiddo preswyl ar hyd Cypress Drive ac sy'n cadw traffig oddi wrth galon datblygiad Llynnoedd Hendre.

Roeddech yn poeni y byddai defnyddwyr yr orsaf yn parcio yn y strydoedd preswyl cyfagos, yn hytrach na lleoedd parcio dynodedig yr orsaf



Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd a chynrychiolwyr o'r gymuned i fonitro effaith unrhyw barcio oddi ar y safle sy'n digwydd o ganlyniad i'r orsaf. Os bydd effaith negyddol, gellir rhoi sawl mesur ar waith i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys trefniadau gorfodi uniongyrchol a newidiadau i unrhyw ffioedd parcio. Yn dilyn adborth o'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn 2019, rydym wedi ailedrych ar faes parcio'r orsaf a chaiff y maes parcio ei ddylunio fel bod modd ei ehangu pe bai galw am hynny yn y dyfodol.

Trafnidiaeth a mynediad

Ar hyn o bryd, prin yw'r opsiynau sydd ar gael i bobl yn Llaneirwg a Trowbridge i'w galluogi i deithio o amgylch yr ardal leol a'r rhanbarth ehangach. Mae'r ffyrdd i ganol dinas Caerdydd yn aml yn llawn tagfeydd gan mai'r orsaf drenau ranbarthol agosaf yw Casnewydd, sydd tua saith milltir i ffwrdd. Gall bysiau i ganol dinas Caerdydd gymryd hyd at 65 munud o ganlyniad i dagfeydd, sy'n golygu bod amseroedd teithio yn annibynadwy.

Bydd gorsaf drenau newydd â gwasanaethau cyson yn lleihau amseroedd teithio yn sylweddol ar drafnidiaeth gyhoeddus i ganol Caerdydd, Casnewydd, Glynebwy a thu hwnt. Mae Parcfordd Caerdydd wedi'i leoli ar bwynt strategol ar y rhwydwaith rheilffyrdd, ac mae gwasanaethau prif linell yn ei gysylltu â Llundain mewn tua 1 awr 45 munud a Bryste mewn 45 munud.

Yn ystod ein hymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd, gwnaethoch ddweud wrthym am nifer o gyfleoedd a phryderon.

Yr hyn a ddywedodd y gymuned wrthym:

Rydych am gael rhyng-gysylltiedd gwell rhwng gwasanaethau bws a'r orsaf



Mae sawl gwasanaeth bws yn rhedeg yn yr ardal leol ar hyn o bryd. Fel rhan o'r datblygiad, byddwn yn darparu cyfleusterau i sicrhau ei bod hi'n haws i wasanaethau lleol alw yn yr orsaf yn ogystal â'r ardal fusnes ei hun. Drwy ddarparu trafndiaeth gyhoeddus well a gorsaf newydd gyda chyfleusterau parcio, ein nod yw sicrhau

ei bod mor gyfleus â phosibl i bobl deithio i'r safle ar fws, neu gyrraedd mewn car ac wedyn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

Bydd cysylltiadau newydd i'r safle i gerddwyr a beicwyr sy'n teithio o gymunedau cyfagos, gan ddarparu mynediad uniongyrchol, diogel i'r datblygiad a'r orsaf.

Bydd Llynnoedd Hendre yn adeiladu ar y rhwydwaith o lwybrau troed yn Llaneirwg gan roi mynediad i Lyn Hendre a chanol Llaneirwg. Bydd cymunedau cyfagos i'r dwyrain a'r gorllewin wedi'u cysylltu â'r datblygiad a'r orsaf drenau drwy lwybrau beicio a cherdded. Yn ogystal, mae llwybr beicio i'r gogledd o'r safle a ddyluniwyd i gysylltu â rhwydwaith ffyrdd beicio arfaethedig Caerdydd, a fydd yn galluogi beicwyr i gyrraedd canol dinas Caerdydd mewn 30 - 45 munud. Caiff yr hawl dramwy gyhoeddus, nad oes modd ei defnyddio ar hyn o bryd, ei gwella - gan gynnwys pontydd, arwyddion ac arwyneb newydd.

Cysylltiadau trafndiaeth cynaliadwy, fel llwybrau cerdded a beicio





Llynnoedd Hendre yng nghanol y gymuned

Bydd Llynnoedd Hendre Caerdydd yn ddatblygiad cynaliadwy ac yn cysylltu cymunedau presennol a newydd â'r orsaf gan greu ymdeimlad o berthyn i ardal. Rydym am greu amgylchedd atyniadol sydd wedi'i ddylunio'n dda i bobl weithio, ymweld a chymdeithasu.

Bydd Llynnoedd Hendre yn gartref i'r genhedlaeth nesaf o fusnesau a fydd yn allweddol er mwyn datblygu economi Cymru. Bydd strydoedd, parciau, mannau cyhoeddus ac adeiladau o ansawdd uchel yn creu lleoliad sy'n denu ac yn cadw'r talentau gorau ac sy'n atyniadol i gymunedau lleol.

Yr hyn a ddywedodd y gymuned wrthym:

Gwnaethoch ddweud y gallai'r datblygiad fod yn gatalydd i wella cyfleusterau a mynediad i Lyn Hendre

Fel rhan o'r datblygiad, byddwn yn creu Prif Barc, sef man y gall pawb ei fwynhau. Bydd y parc yn newid yn gyson drwy'r tymhorau ac mae'n cynnwys llawer o le agored i bobl sy'n gweithio yn y parc busnes a'r gymuned leol eu mwynhau. Bydd yn cynnwys tirwedd amlbwrpas lle dyluniwyd bod lefelau dwr yn codi yn ystod llifogydd a stormydd, a threfniadau i reoli ecosystemau lleol yn ofalus gan roi cartref i fywyd gwylt gwerthfawr Gwastadeddau Gwent. Bydd cysylltiadau i Lyn Hendre a bydd cyfle i wella cyfleusterau.

Lle diogel ac atyniadol i gymunedau ac ymwelwyr

Gwnaethoch ddweud wrthym eich bod am i'r datblygiad fod yn ddiogel ac yn atyniadol, gyda llwybrau sydd wedi'u goleuo'n dda, tiroedd cyhoeddus diddorol, lle gellir gosod gosodiadau celf, ardaloedd meddwlgarwch a mesurau gweithredol i atal sbwriel, graffiti a mathau eraill o fandaliaeth

Gwnaethom dderbyn eich dyhead am le atyniadol a deall eich pryderon am ddiogelwch. Rydym wedi datblygu ein cynigion i adlewyrchu hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Mae'n hawdd dod o hyd i'ch ffordd drwy gynllun y safle a'r rhwydwaith strydoedd er mwyn helpu pobl i symud o gwmpas y safle
- Bydd y llwybrau allweddol ar agor, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, wedi'u goleuo'n dda ac yn teimlo'n ddiogel i bawb
- Darperir meinciau a dodrefn eraill mewn mannau priodol o amgylch y safle er mwyn rhoi lle i bobl orffwys
- Dyluniadau golau sy'n creu amgylchedd diogel a biniau er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn aros yn lân ac yn daclus
- Cyfyngu ar fynediad i gerbydau o berimedr o 30m o adeilad yr orsaf er mwyn diogelu ardaloedd prysur i gerddwyr rhag y perygl o wrthdrawiadau rhwng cerbydau
- Pafin cyffyrddol, gwybodaeth glywadwy a chymhorthion synhwyrdd eraill er mwyn galluogi pobl ddall a rhannol ddall a phobl fyddar a thrwm eu clyw i fynd o amgylch y safle, yn ogystal â phobl â galluoedd gwybyddol amrywiol
- Bydd arwyddion cyfeirio yn hawdd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl o alluoedd amrywiol eu deall a'u darllen

Beth mae ein cynigion yn ei olygu i chi

Bydd datblygiad Llynnoedd Hendre Caerdydd yn darparu ystod o fuddiannau ar gyfer yr ardal leol a’r rhanbarth ehangach, gan gynnwys:

- 

Swyddi a sgiliau
dod â hyd at 6,000 o swyddi newydd i’r ardal
- 

Buddsoddiad economaidd
denu busnesau a buddsoddiadau newydd i Dde Cymru a meithrin busnesau presennol er mwyn creu mynediad gwell i farchnadoedd a chyfleusterau o’r radd flaenaf
- 

Gwell cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus
cysylltu Dwyrain Caerdydd â gweddill De Cymru a thu hwnt drwy orsaf brif linell a chyfleusterau bws
- 

Teithio llesol
annog pobl ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddefnyddio mathau iachach a mwy cynaliadwy o drafnidiaeth i deithio’n uniongyrchol i’r safle neu fel rhan o daith ar drafnidiaeth gyhoeddus
- 

Mannau cymdeithasu awyr agored
darparu parc newydd a gwella cyfleusterau awyr agored
- 

Gwell bioamrywiaeth
bydd ein strategaeth ar gyfer y dirwedd a bioamrywiaeth yn arwain at gynydd net mewn cynefinoedd i rywogaethau, fel pathewod a llygod y dwr, yn ogystal â rhywogaethau planhigion brodorol mwy amrywiol
- 

Hwb o weithgarwch cymunedol
gan gynnwys mannau adloniant hyblyg yn Sgwâr yr Orsaf a chaffis, bwytai a chyfleusterau eraill i bobl sy’n defnyddio’r orsaf, sy’n gweithio yn Llynnoedd Hendre Caerdydd neu’r parciau busnes cyfagos presennol, a’r gymuned leol
- 

Amgylchedd diogel
rhoddwyd ystyriaeth arbennig i ddylunio golau a llinellau gweld wrth symud o amgylch yr ardal

Lleisio eich barn

Hoffem ddiolch i chi am gymryd amser i ddysgu am ein cynigion ac rydym yn eich annog i gymryd rhan drwy roi eich adborth ar y prosiect. Gallwch wneud hyn drwy gwblhau un o’n ffurflenni adborth. Mae mwy o wybodaeth, gan gynnwys y dogfennau cynllunio drafft, ar gael ar ein gwefan (www.cardiffhendrelakes.com/cy/).

Gyda’ch cymorth chi, gallwn greu datblygiad cwbl unigryw sy’n dod â buddsoddiad i’r rhanbarth, sy’n creu cyfleoedd cyflogaeth newydd ac sy’n cysylltu pobl â’r dirwedd.

Ar ôl yr ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol hwn, byddwn yn cyflwyno ceisiadau cynllunio amlinellol yn ddiweddarach eleni. Mae’r ymgynghoriad yn cau Dydd Mercher 9 Medi.

I leisio eich barn, cwblhewch ffurflen adborth ar-lein drwy fynd i’n gwefan:

www.llynnoeddhendrecaerdydd.com

Neu drwy ei lawrlwytho, ei hargraffu a’i hanfon i’n cyfeiriad rhadbost (nid oes angen stamp).

FREEPOST HENDRE LAKES

Os bydd angen copi caled o ffurflen adborth arnoch neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni drwy un o’r ffyrdd canlynol:

- 

Rhadffôn: 0800 464 0850
- 

E-bost: communityrelations@cardiffhendrelakes.com
- 

Rhadbost: FREEPOST HENDRE LAKES
- 

Gwefan: www.llynnoeddhendrecaerdydd.com

Cael y wybodaeth ddiweddaraf am Llynnoedd Hendre Caerdydd

Byddwn yn ychwanegu mwy o wybodaeth am y datblygiad yn ystod yr wythnosau a’r misoedd nesaf. Er mwyn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, cofrestrwch ar gyfer ein rhestr bostio ar ein gwefan neu dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:

 @llynnoeddhendre  @LlynnoeddHendreCaerdydd

LLYNNOEDD HENDRE CAERDYDD
CARDIFF **HENDRE LAKES**

www.llynnoeddhendrecaerdydd.com

 [@llynnoeddhendre](https://twitter.com/llynnoeddhendre)  [@LlynnoeddHendreCaerdydd](https://www.facebook.com/LlynnoeddHendreCaerdydd)